

Cynilo fel nod i anelu ato.

Paratoi

- Meddyliwch am rywbeth yr hoffai'r teulu cyfan ei gael neu ei wneud, ond rydych yn ei osgoi gan nad oes gennych ddigon o arian mae'n debyg. Edrychwch ar ein rhestr wirio o weithgareddau ar gyfer rhai syniadau, ond mae croeso i chi gynnwys rhai eraill sydd gennych chi.
- Darllenwch drwy'r gweithgaredd cyfan a meddyliwch sut y gall weithio ar gyfer eich teulu chi.
 - Gall penderfynu ar nod a llunio cynllun gymryd ychydig o amser, ac os ydych am lwyddo i gynnal diddordeb y plant yna rhaid i chi gadw'r broses i fynd.
 - Ond peidiwch â bod yn rhy fyrbwyll a chyflwyno nod a mynnu sut y caiff ei gyflawni, rhaid i'r teulu cyfan fod yn rhan o'r daith.
- Meddyliwch am wahanol oedran a gallu'ch plant a'r gwahanol dasgau y byddant yn medru ymgymryd â nhw er mwyn cyfrannu at y broses.

Cynnwys y teulu

- Dewch â'r holl deulu ynghyd i drafod y nod a sut byddwch yn ei gyflawni.
- Rhowch gymorth i'r plant i gyd wrth iddynt ymchwilio beth fydd cost cyrraedd eich nod. Defnyddiwch ein rhestrau gwirio i'ch procio a gwnewch yn siŵr eich bod yn delio mewn ffeithiau nid breuddwydion neu straeon.
- Gall eich dyhead delfrydol fod yn rhy ddrud, felly cyfaddawdwch a chytuno ar nod sy'n cyffroi pawb ac sy'n gyraeddadwy.
- Unwaith y byddwch wedi cytuno ar yr hyn yr ydych am ei wneud, dylai pawb arwyddo ei enw (neu roi marc!) ar waelod y rhestr wirio i ddangos ei ymroddiad i'r broses.

Cyflawni eich nod

- Meddyliwch am rywbeth yr hoffai'r teulu cyfan ei gael neu ei wneud, ond rydych yn ei osgoi gan nad oes gennych ddigon o arian mae'n debyg. Edrychwch ar ein rhestr wirio o weithgareddau ar gyfer rhai syniadau, ond mae croeso i chi gynnwys rhai eraill sydd gennych chi.
- Darllenwch drwy'r gweithgaredd cyfan a meddyliwch sut y gall weithio ar gyfer eich teulu chi.
 - Gall penderfynu ar nod a llunio cynllun gymryd ychydig o amser, ac os ydych am lwyddo i gynnal diddordeb y plant yna rhaid i chi gadw'r broses i fynd.
 - Ond peidiwch â bod yn rhy fyrbwyll a chyflwyno nod a mynnu sut y caiff ei gyflawni, rhaid i'r teulu cyfan fod yn rhan o'r daith.
- Meddyliwch am wahanol oedran a gallu'ch plant a'r gwahanol dasgau y byddant yn medru ymgymryd â nhw er mwyn cyfrannu at y broses.

Negeseuon dysgu ar gyfer eich teulu

- Gall cydweithio sicrhau bod rhywbeth sydd y tu hwnt i'ch cyrraedd bellach yn fforddiadwy ac ar gael.
- Mae nod a gytunir ac a ddeallir gan y teulu cyfan, yn dod ag undod ac yn lleihau anghydfod.
- Pan fyddwch yn cyflawni'ch nod, dathlwch lwyddiant y teulu a byddwch yn gyffrous am eich antur nesaf gyda'ch gilydd.

Gwthio pethau ymhellach

- Gall cydweithio sicrhau bod rhywbeth sydd y tu hwnt i'ch cyrraedd bellach yn fforddiadwy ac ar gael.
- Mae nod a gytunir ac a ddeallir gan y teulu cyfan, yn dod ag undod ac yn lleihau anghydfod.
- Pan fyddwch yn cyflawni'ch nod, dathlwch lwyddiant y teulu a byddwch yn gyffrous am eich antur nesaf gyda'ch gilydd.